# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

## Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2012
## Glyder Fawr, Penrallt, Caernarfon

**Presennol:**

**Cyngor Gwynedd:**
Cyng. John W Williams (Cadeirydd)
Cyng. Dafydd Meurig (eilydd)
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. Gwen Griffith
Cyng Christopher O'Neal
Cyng. Owain Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn:**
Cyng R Ll Hughes (Is-Gadeirydd)
Cyng. Lewis Davies

**Swyddogion**
Jim Woodcock - Pennaeth Cynllunio a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn
Gareth Jones - Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd
Nia Haf Davies - Rheolwr UPCC
Bob Thomas - Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio, UPCC
Eirian Harris - Cymhorthydd Cefnogol, UPCC

**Ymddiheuriadau:**
Cyng. Gethin Williams - Cyngor Gwynedd
Cyng. Dyfrig Jones - Cyngor Gwynedd
Cyng. W. J Chorlton - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Kenneth Hughes (eilydd) – Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. H Eifion Jones – Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. C McGregor – Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. E Roberts – Cyngor Sir Ynys Môn

1. **YMDDIHEURIADAU**
Fel nodwyd uchod.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd datganiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.  .

3. **MATERION BRYS**
Ni chyflwynwyd unrhyw fater brys.

4. **COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod y Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd a gynhaliwyd 20 Gorffennaf 2012 fel rhai cywir.

   Ymddiheurodd Cyng Owain Williams am ei absenoldeb yn y cyfarfod yma oherwydd amgylchiadau personol.

5. **Y PROSIECT HIERARCHAETH ANEDDIADAU**
Cyflwynwyd adroddiad gan Bob Thomas ar Hierarchaeth Aneddiadau. Esboniwyd fod yr adroddiad yma yn rhoi manylder ar Gam 4 o adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel yng Ngorffennaf 2012. Cynigir opsiynau ar gyfer dull o sgorio gwasanaethau / cyfleusterau sydd yn bodoli mewn gwahanol aneddiadau er mwyn adnabod eu rôl bresennol.  Fe fydd cyfle i gael mewnbwn Aelodau i'r broses trwy gyfres o weithdai dechrau mis Hydref er mwyn ystyried rôl canolfannau i'r dyfodol dros gyfnod y cynllun.

   Trafodaeth / Pwyntiau a Godwyd:

   - Nodwyd fod ysgolion yn cael ei ystyried fel un o'r cyfleusterau allweddol a chyfeiriwyd at effaith ar aneddiadau sydd dan fygythiad o gau ysgolion gwledig. Awgrymodd yr Aelod mai ysgolion yw'r unig gyfleuster allweddol mae gan y Cyngor rheolaeth uniongyrchol trosto. Nodwyd mai sgorio'r sefyllfa bresennol o fewn aneddiadau yr ydym ar hyn o bryd ac wedyn edrych ar unrhyw fygythiad neu cyfleon i'r dyfodol.
   - Nodwyd fod gan y Panel rôl i ddylanwadu ar ddatblygiad y fethodoleg ond y byddai pob Aelod o'r Cyngor yn cael cyfle i gyflwyno barn a gwybodaeth mewn cyfres o seminarau ddechrau mis Hydref.
   - Fe gadarnhawyd bydd yr un fethodoleg yn cael ei ddefnyddio o fewn y ddau awdurdod.
   - Cwestiynwyd pam nad oedd system sgorio wedi ei gyflwyno i faterion Poblogaeth, Tai a Tai Gwyliau a godwyd yng nghyfarfod Gorffennaf. Eglurwyd nad oedd hyn yn briodol i'r system sgorio ond yn hytrach fe gaiff ei ystyried fel rhan o'r cam nesaf wrth roi sylw i rôl canolfannau i'r dyfodol.
   - Nodwyd y broblem o gael isadeiledd  yng nghefn gwlad a'r pwysigrwydd o gael isadeiledd angenrheidiol fforddiadwy er mwyn cynnal ac ychwanegu at gyfleon cyflogaeth yn yr ardaloedd yma.

   Derbyniwyd yr adroddiad gan y Panel.

6. **DATBLYGU'R DDOGFEN STRATEGAETH DDEWISOL**

Rhoddwyd crynodeb o'r papur gan Nia Davies er mwyn cael barn yr Aelodau ar eiriad arfaethedig Rhannau 1 – 6 o'r ddogfen Strategaeth Ddewisol drafft.

Esboniwyd:

- Y gwahaniaeth rhwng Strategaeth Ddewisol ac y CDLl Adnau - dogfen strategaeth sydd yn rhoi asgwrn cefn i'r Cynllun felly dim manylder mewn polisïau a mannau datblygiad.
- Tueddiadau allweddol a materion sydd yn effeithio ardaloedd
- Gweledigaeth, Amcanion, Opsiynau Twf a Dosbarthiad Amgen a drafodwyd yn barod.
- Bod rhan o'r ddogfen yn amlinellu fframwaith polisïau lleol, rhanbarthol a cenedlaethol.
- Bod bwriad i gael dogfen Strategaeth Ddewisol ar ymgynghoriad erbyn Ionawr 2013.
- Bod Atodiad 2 yn rhestru termau allweddol a ddefnyddiwyd yn y broses. Bydd y rhestr yma'n cael ei chynnwys fel rhan o'r ddogfen Strategaeth Ddewisol. Gofynnwyd am y rhestr yma mewn trefn y wyddor.
- Bod y mapiau yn rhoi trosolwg o'r ardal
- Bod y Weledigaeth wedi ei gytuno gan y ddau Gyngor yn ogystal â Lefel Twf Tai a'r Patrwm Dosbarthu cyffredinol.

Trafodaethau / Pwyntiau a Godwyd:

- Gofynnwyd am fap yn dangos cynlluniau isadeiledd yng Ngwynedd yn ogystal ag yr un presennol ar gyfer Môn
- Angen cywiro tud 24 / 4.1: rhif poblogaeth ddim yr yn fath a rhif aelwyd
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â dylanwad y CDLl ar y Cyd ar argaeledd cyfleusterau iechyd esboniwyd fod gan y CDLl ar y Cyd rol i chwarae i geisio sicrhau bod yr ardal yn cynnig isadeiledd cymdeithasol a ffisegol, e.e. llecynnau agored, cyfleon i unigolion gerdded a beicio, a bod trafodaethau yn cymryd lle gyda Betsi Cadwaladr a Rhanddeilwyr Allweddol ar gyfer materion yn ymwneud ag Iechyd.
- Nodwyd nad oedd ffyrdd dosbarth 'A' yn mynd i Berhyn Llyn ar y map a ddangoswyd ac awgrymwyd gall diffyg cysylltiadau da fod yn wendid a llesteirio datblygiad mewn ardal.
- Nodwyd fod yna gyfeiriad at gynllunio ar gyfer unedau tai i'r henoed ac awgrymwyd y dylid cryfhau'r eirfa i sicrhau ceir bachyn i gynllunio ar gyfer cadw pobl ifanc yn yr ardal, sydd wedi cael ei adnabod fel mater angen sylw mewn rhan arall o'r ddogfen
- Angen mwy o sylw tuag at yr Economi yn rhan 6 o'r ddogfen. Twristiaeth wedi gostwng flwyddyn yma sy'n effeithio ar fywiogrwydd siopau lleol
- Angen wynebu problem o gostau is-adeilaidd. Problem mewn rhannau o'r ardal efo rhwydwaith gwael o ffyrdd megis gorllewin Penrhyn Llyn a de Meirionydd.
- Awgrymwyd y bydd angen neilltuo amser yn nes ymlaen cyn y cyfnod ymgynghori fel gall y Panel drafod dull ymgynghori, er mwyn ceisio sicrhau fod y negeseuon yn rhai dealladwy ac yn cael eu lledaenu.